

## BWLETIN MIS EBRILL 2016


### SGIP GYMUNEDOL

Bydd sgip ar gyfer defnydd domestig y gymuned wedi ei lleoli yn Maes Llan, dydd Sadwrn 14/05/16 am 9:00 o'r gloch. Cofiwch cyntaf i'r felin!

### Y BONT

Mae'r bont newydd bellach yn ei lle, a hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch i'r Sir am eu hymateb diymdroi; i'r contractwyr am ganlyniad effeithiol a boddhaol ac i Mr Richard Williams, Henblas am ei gydweithrediad gyda'r contractwyr: cafodd ei gaeau eu defnyddio ar gyfer cludo offer a pheiriannau trwm.

Bu i'n Cynghorydd Sirol, y Cyng. Austin Roberts chwarae ran egniol mewn cael pont i ni, a hynny erbyn y Gwanwyn.



### COSTAU CLADDU



Mae gan Eglwys Bach fynwent lawnt brydferth. Cysylltwch a Sexton y Cyngor Cymuned, y Cyng. John Lloyd Williams ar 650 441 am y costau claddu diwygiedig.

### FACEBOOK

Mae'r Cyngor Cymuned yn defnyddio'r dudalen Facebook 'Cymuned Eglwysbach' yn aml i gofnodi pethau o ddiddordeb i'r gymuned. Nid yw'n safle swyddogol, ond yn hysbysfwrdd defnyddiol.

## PONT DROED



Rydym wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion bod beiciau modur trwm yn cael eu cludo dros y bont droed newydd. Pont i gerddwyr yn unig yw hon ac rydym yn gobeithio y bydd beiciau modur a cheffylau yn mynd drwy'r dŵr yn y dyfodol.

## AGM

Bydd y Cyngor Cymuned yn cynnal Cyfarfod Blynyddol (AGM) gyda'r Etholwyr er mwyn edrych yn ôl dros y flwyddyn aeth heibio ac i drafod materion sy'n bwysig iddynt.

Croeso cynnes i aelodau'r gymuned fynychu - nos Fawrth, 3ydd Mai am 7:00 o'r gloch.

## CYNGHORWYR; FFARWEL A CHROESO

Rydym yn falch o groesawu John Emlyn Jones o Glan Aber yn aelod o'r Cyngor yn lle Wendy Martin.

Bu i Wendy ymddiswyddo oherwydd ymrwymadau teuluol wedi ambell flwyddyn o wasanaeth ffyddlon.

Fodd bynnag, bydd Wendy yn parhau i fod tu ôl i fentrau Cadw'n Heini'r pentref, a chael ei chanmol am ddod a Pilates a digwyddiadau i Gae Swings ynghyd a phethau eraill.

Mae John Emlyn Jones wedi bod yn gwasanaethu'r gymuned ers ychydig o flynyddoedd, tu ôl i'r llenni, a bydd yn ychwanegiad croesawgar i'r Cyngor.



## PAPUR EGLWYSBACH

Dyma gylchgrawn y pentref ar ei newydd wedd. Dylai fod ar gael i'r gymuned yn y dyddiau nesaf. Bydd copïau sbâr ar gael gan Daryl Mackenzie, Hamdden. (drws nesaf i'r hen siop).

